# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 15 Medi 2015

Amser: 09.00 - 10.06

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3218

## Attendance

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Darren Millar AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Jocelyn Davies AC<br>Mike Hedges AC<br>Sandy Mewies AC<br>Julie Morgan AC<br>Jenny Rathbone AC<br>Aled Roberts AC |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Buckle (Clerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Matthew Mortlock (Swyddfa Archwilio Cymru)<br>Huw Vaughan Thomas (Swyddfa Archwilio Cymru)<br>Mike Usher (Swyddfa Archwilio Cymru) |

TRAWSGRIFIAD

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Croesawodd y Cadeirydd Fay Buckle yn ôl fel Clerc a diolch i Michael Kay am glercio'r Pwyllgor yn ei habsenoldeb.

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Nodwyd y papurau. Cytunodd yr aelodau ar y canlynol:

- Buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn isadeiledd Band Eang y Genhedlaeth Nesaf – Cytunodd Archwilydd Cyffredinol Cymru i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am eglurhad ynglŷn â nifer o faterion.
- Gweithredu'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG – Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am eglurhad ynglŷn â nifer o faterion a godwyd gan Aelodau.
- Glastir – Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf, pan fydd ar gael, ynglŷn â'r cynlluniau rheoli basnau afonydd wedi'u diweddaru a hefyd i ofyn am ragor o eglurhad ynglŷn ag achosion y gellir eu holrhain i dir a reolir gan Gyfoeth Naturiol Cymru lle y methwyd â chydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.
- Gofal heb ei Drefnu – Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am eglurhad ynglŷn â nifer o faterion a godwyd.
- Trefniadau Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn am gopi o'r adolygiad sy'n cael ei gynnal gan y Dr Chris Jones ar *wasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau arferol*, pan fydd ar gael, a hefyd i ofyn am ddata yn ymwneud â nifer y gwasanaethau meddygon teulu penodol sydd wedi'u lleoli o fewn adrannau achosion brys mewn ysbytai.

2.1 **Buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn Isadeiledd Band Eang y Genhedlaeth Nesaf: Llythyr gan Lywodraeth Cymru (17 Gorffennaf 2015)**

2.2 **Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG: Llythyr gan Lywodraeth Cymru (21 Gorffennaf 2015)**

2.3 **Glastir: Llythyr gan Lywodraeth Cymru (31 Gorffennaf 2015)**

2.4 **Gofal heb ei drefnu: Llythyr gan Lywodraeth Cymru (7 Awst 2015)**

2.5 **Trefniadau Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: Llythyr gan Lywodraeth Cymru (1 Medi 2015)**

## 3 Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Cynghori ar Adroddiadau Ariannol 2014-2015

3.1 Rhoddodd Mike Usher, Arweinydd Sector ar gyfer Iechyd a Llywodraeth Ganolog yn Swyddfa Archwilio Cymru, sesiwn friffio ar yr adroddiad, ac fe'i nodwyd gan yr Aelodau.

3.2 Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Parhaol yn gofyn am eglurhad ynglŷn ag amserlen Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithredu'r prosiect *Symleiddio a Gwella Cyfrifon.*

## 4 Ymchwiliad i werth am arian Buddsoddi mewn Traffyrdd a Chefnffyrdd: Ystyried ymateb Llywodraeth Cymru

4.1 Nododd yr Aelodau ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor a sylwadau'r Archwilydd Cyffredinol yn ei gylch.

4.2 Cytunodd yr Aelodau y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am ragor o eglurhad ynglŷn ag ymateb y llywodraeth i argymhellion yr Adroddiad ac esboniad o'u rhesymau dros newid eu polisi ar godi sgriniau o amgylch damweiniau, ar yr A55, i atal modurwyr rhag edrych ar ddamweiniau.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Craffu ar Gyfrifon 2014-15

6.1 Trafododd yr Aelodau'r sesiynau craffu sydd ar y gweill ar gyfrifon blynyddol 2014-15 gan awgrymu meysydd yr oeddent yn dymuno iddynt gael eu cynnwys yn y briffiau perthnasol.

6.2 Dywedodd Archwilydd Cyffredinol Cymru y bydd yn ysgrifennu gyda dadansoddiad o sut y mae'r cyrff y rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth iddynt yn 2014 wedi bwrw ymlaen ag argymhellion y Pwyllgor, ar ôl archwilio'r holl adroddiadau blynyddol a chyfrifon ar eu cyfer.